



Teithiau Cerdded
Thematig Rhif 4

Llwybr Cerfluniau Tre-gib

Hwyl i'r teulu cyfan
yn y coed

TYWI AFON YR OESOEDD



TYWI A RIVER THROUGH TIME

Llwybr Cerfluniau Tre-gib Cip cyflym

Pellter

2 cilomedr

Amser

2 awr

Llwybr Cerfluniau Tre-gib

Mae Coedydd Coed Cadw yn Nhre-gib yn cynnig cyfle i brofi Coetir Hynafol, dolydd blodau gwyllt, coetiroedd brodorol newydd a cherfluniau cofiadwy, y cyfan o fewn taflriad carreg i Ganol Tref Llandeilo.

Edrychwch am

Olion o fywyd gwyllt – olion dyfrgwn neu foch daear mewn mwd meddal, adar yn nythu mewn coed a chloddiau. Allwch chi weld y cwningod a'r cadno yn cuddio yn y coed?

Cofiwch

Ceisiwch ddod o hyd i'r tagiau pathewod bach sydd wedi'u cuddio ar bob cerflun. Sawl un allwch chi weld? Dilynwch yr arwyddion marcio Llwybr wrth ichi ddilyn y daith.

Sylwch

Fod y maes parcio yn gallu bod yn brysur weithiau, felly byddwch yn ofalus wrth gychwyn yma a dod yn ôl. Ar ôl tywydd stormus efallai y bydd rhai coed wedi syrthio a/neu y bydd canghennau rhydd yn crogi yn eu coronau felly cofiwch edrych i fyny wrth fynd drwy'r coetir hŷn.

Dewch yn barod

Rydyn ni'n argymhell y dylai fod map gennych a'ch bod yn gwybod sut i ddefnyddio un. Gofalwch eich bod yn gwisgo dillad addas a'ch bod yn barod am dywydd o bob math. Mae esgidiau caled neu esgidiau addas eraill yn hanfodol gan fod y tir yn gallu bod yn wlyb weithiau, er bod y daith yn dilyn llwybrau a llwybrau estyllod sy'n cael eu cadw mewn cyflwr da, sy'n ei gwneud yn addas i bawb.

Diolch yn fawr

Diolch i Coed Cadw am weithio mewn partneriaeth gyda Thywi Afon yr Oesoedd ar y Llwybr estyll coetir a'r Llwybr cerfluniau hwn.

Y DAITH

1 Dinosor yn hedfan? O na, crychydd sydd yna!

Rydych yn cerdded i mewn i un o'r llecynnau mwyaf o goetiroedd hynafol yn Nyffryn Tywi, ac mae hwn hefyd yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r llwybr yn mynd â chi o gwmpas y cerflun cyntaf – allwch chi weld beth ydyw eto? Mae'r crychydd i'w weld yn aml dros y coetir ac yn pysgota yn yr afon a'r nentydd gerllaw. Pam ydych chi'n meddwl fod gan y crychydd goesau hir a phig hir? Allwch chi ddod o hyd i'r pathew yn cuddio ar y stwmp?

Wrth ichi agosáu at y coetiroedd hŷn, fe welwch y coed hynafol mawr sydd wedi goroesi am ganrifoedd. Gellir gweld enghreifftiau eraill ym Mharc Dinefwr a Choetir y Castell ar draws yr afon.

2 I mewn i'r coed!

Mae dwrgi cyfeillgar yma sy'n cynnig sedd os ydych eisiau gorffwys neu eisiau lle i gael diod a thamaid i'w fwyta. Onid yw'n hyfryd? Beth mae e'n ei fwyta?

Mae'r coetir hynafol yn bennaf yn cynnwys derw ac onnen gyda choedlan collen a choetir gwlyb sy'n llawn coed gwernen. Cafodd y coetir ei glirio'n gyfan gwbl yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac mae'r ychydig hen goed i'w gweld yn bennaf ar y ffiniau, sy'n cadw rhai o'r cymunedau epiffytig ac mae'n lloches i lawer o rywogaethau sy'n brin neu'n absennol o weddill y coetir. Mae'r coetir yn fotanegol amrywiol ac fe gofnodwyd mwy na 100 o rywogaethau o blanhigion. Cofnodwyd pathewod hefyd ar y safle, ac nid ydym yn golygu'r rhai sy'n cuddio ar y cerfluniau!

3 Pwy sydd wrthi'n pitran-patran dros fy llwybr estyll?


Peidiwch gwneud gormod o sŵn trwy'r darn tywyll, dirgel hwn o'r coed, gan y gallech godi ofn ar y bywyd gwyllt. Os edrychwch yn ofalus efallai y gwelwch rai adar coetir fel yr aderyn du, y titw tomos las neu hyd yn oed sgrech y coed. Mae'r coetir gwlyb hwn yn wych ar gyfer bywyd gwyllt, ac mae digon o blanhigion a thrychfilod gwlyptir arbenigol sy'n darparu bwyd i adar ac anifeiliaid.

Codwyd y llwybr estyll yn arbennig i gynnis mynediad rhwyddach dros y tir gwlyb gyda chymorth contractwyr Coed Cadw a gwirfoddolwyr Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd o Ysgolion Tre-gib a Phantycelyn.

4 Manfilod hudolus!

Wrth ichi adael yr hen goetir, cymerwch amser i astudio'r polyn totem o'r pili pala. Pili pala Brithribin Brown yw hwn, pili pala hardd a chyfrinachgar sy'n dibynnu ar gloddiau ac ymylon coetrol i roesi. Wrth ichi gerdded yn ôl at y maes parcio, edrychwch ar yr holl fathau gwahanol o goed a blannwyd yn y rhan hon o'r coetir. Mae pob un ohonynt yn weddol ifanc gan na chawsant ond eu plannu yng ngaeaf 2004/2005. Ydyn nhw'n iau neu'n hŷn na chi? Sylwch pa mor dal ydynt am eu hoed o'u cymharu â chi!





Camu ymhellach i Ddyffryn Tywi

Mae Llwybr Cerfluniau Tre-gib yn un o gyfres o 6 thaith gerdded thematig a grëwyd i annog pobl i fwynhau Dyffryn Tywi. Gwnaed y teithiau cerdded yn bosib diolch i ffermwyr a thir berchnogion lleol a Phrosiect Tywi Afon yr Oesoedd sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Treftadaeth y Loteri a'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am unrhyw un o deithiau cerdded thematig Tywi Afon yr Oesoedd, ewch i www.tywiafonyroesoedd.org.uk



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI